ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Casgliad addysg heblaw yn yr ysgol (AHYYY) Wythnos y cyfrifiad: 20 Ionawr 2025 i 24 Ionawr 2025

Y casgliad ddata AHYYY ar gyfer y flwyddyn academaidd 2024/2025

## Nodiadau cwblhau technegol

**Dyddiad cyhoeddi**: 9 Medi 2024
**Fersiwn**: 1.0

# Casgliad ddata AHYYY:
# 20 Ionawr 2025 i 24 Ionawr 2025

**Cynulleidfa**

Awdurdodau lleol.

**Trosolwg**

Llywodraeth Cymru sy'n darparu'n nodiadau cwblhau technegol hyn i helpu'r gynulleidfa uchod i gydymffurfio â'u dyletwyddau statudol.

**Camau angenrheidiol**

Mae'r holl ddisgyblion sy'n derbyn darpariaeth addysg (neu'n disgwyl i cael darpariaeth) sydd wedi eu ariannu gan yr awdurdod lleol heblaw mewn ysgol a gynhelir ac efallai na chaiff ei manylion gael eu dal trwy gasgliadau data eraill, e.e. CYBLD, angen eu recordio ar y datganiad hwn.

**Manylion pellach**

Os oes angen mwy o gyngor arnoch ar lenwi unrhyw ran o'r casgliad yma, cysylltwch â'ch awdurdod lleol yn y lle cyntaf.

Dylid anfon ymholiadau am y ddogfen hon at:

Strategaeth Rheoli Gwybodaeth
Y Tîm Casgliadau Data
Y Gangen Gwybodaeth a Gwella Ysgolion
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 0300 062 5014
E-bost: IMS@llyw.cymru

@LlC_Addysg

Facebook/AddysgCymru

**Copïau ychwanegol**

Mae'r ddogfen yma ar gael ar wefan Llywodaeth Cymru yn llyw.cymru.

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

Digital ISBN 978 1 83625 568 0
© Hawlfraint y Goron Medi 2024
WG50498

# Contents


**1. Trosolwg** **2**

**2. Newidiadau I AHYYY blwyddyn yma** **4**

2.1 Dim newid ar gyfer AHYYY am 2025 4

**3. Datblygiadau yn y dyfodol** **5**

3.1 Adolygiad hunaniaeth genedlaethol ac ethnigrwydd 5

**4. Cefndir** **6**

**5. Pwy y dylid eu cynnwys yng nghyfrifiad blynyddol AHYYY?** **7**

5.1 Plant mewn amgylchiadau arbennig 8

Gwaharddiadau trawsffiniol 8

Disgyblion ag anghenion addysgol arbennig 8

Disgyblion heb rhif unigol disgybl (UPN) 8

Disgyblion nad ydynt yn byw yng Nghymru 8

Lle nad yw’r ‘categori darpariaeth’ yn adlewyrchu’n gywir y ddarpariaeth a roddir 8

**6. Y casgliad** **9**

6.1 Categori’r ddarpariaeth 9

6.2 Oriau’r ddarpariaeth 10

6.3 Addysg ddewisol yn y cartref 10

**7. Gwybodaeth sy’n ofynnol ar lefel awdurdod lleol** **11**

**8. Y data sy’n ofynnol ar lefel disgyblion unigol** **12**

8.1 Disgyblion ar gofrestr UCD yn ystod wythnos y cyfrifiad 12

**9. Cofnodi data a gwirio data** **25**

**10. Dilysu a chywiro gwallau** **26**

**11. Y crynodeb** **27**

**12. Anfon y datganiad I Lywodraeth Cymru** **28**

**13. Rhagor o wybodaeth** **29**

**14. Crynodeb o’r meysydd data** **30**

14.1 Data ar lefel awdurdod lleol 30

Dynodyddion ysgol 30

Manylion yr arolwg 30

Manylion addysg ddewisol yn y cartref 30

14.2 Data ar lefel disgyblion unigol 30

Dynodyddion disgyblion 30

Nodweddion disgyblion 30

Statws disgyblion 31

Anghenion addysgol arbennig 31

Gwybodaeth AHYYY 31

Data gwaharddiadau 31

## 1. Trosolwg

Mae'r cyfrifiad addysg heblaw yn yr ysgol (AHYYY) yn cwmpasu'r disgyblion sydd methu mynychu ysgol a gynhelir ac mae'r awdurdod lleol yn trefnu eu haddysg o dan adran 19A o Ddeddf Addysg 1996. Mae AHYYY yn cael ei ddarparu mewn nifer o ffyrdd gan gynnwys trwy unedau cyfeirio disgyblion (UCD), darparwyr annibynnol a gwasanaethau dysgu o gartref awdurdodau lleol.. Mae rhan fwyaf o wybodaeth yn cael ei darparu ar ffurf cofnod disgybl unigol, gan gynnwys enw'r disgybl a rhif unigryw'r disgybl (UPN).

Mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol ddarparu data ar lefel disgyblion i Lywodraeth Cymru ar gyfer yr holl ddisgyblion y mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd i ddarparu addysg iddynt heblaw yn yr ysgol. Gall y ddarpariaeth a roddir i'r disgybl fod wedi'i lleoli oddi mewn neu oddi allan i ardal yr awdurdod lleol. Mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol gyflwyno un datganiad ar gyfer pob disgybl y mae'n gyfrifol amdano/amdani. Nid yw'n ofynnol i'r awdurdod lleol sy'n cyflwyno'r datganiad gynnwys y disgyblion sydd mewn UCD oddi mewn i'r awdurdod lleol ond sy'n byw y tu allan i ardal yr awdurdod lleol ac y mae awdurdodau lleol arall yn gyfrifol amdanynt, h.y. yr awdurdod lleol arall sy'n gyfrifol am drefnu ac ariannu'r ddarpariaeth.

Trwy ddadansoddi cofnodion disgyblion unigol o cyfrifiad ysgolion blynyddol ar lefel disgyblion (CYBLD) yr ysgol a'r datganiad data AHYYY hwn, ynghyd ag asesiadau cyfnodau allweddol a chanlyniadau arholiadau'r disgyblion, mae ysgolion, awdurdodau lleol ac asiantaethau canolog yn derbyn ystod llawer ehangach o wybodaeth nag oedd yn bosibl gyda chyfansymiau yn unig. Mae hyn yn cefnogi'r ymgyrch i godi safonau, i dargedu cyllid yn fwy manwl, ac i fonitro a datblygu polisi.

Trwy ymgynghori â darparwyr (datblygwyr) meddalwedd gwybodaeth reoli'r (MIS) awdurdod lleol, y bwriad yw y bydd cofnodion disgyblion unigol ar gyfer datganiad cyfrifiad AHYYY yn cael eu creu'n awtomatig gan eich MIS ac mae'n bosib na fydd modd golygu rhannau ohonynt â llaw. Mae'n hanfodol felly bod yr holl ddata perthnasol am ddisgyblion yn cael eu cofnodi yn system eich awdurdod lleol cyn creu'r datganiad cyfrifiad AHYYY.

Bydd eich meddalwedd yn cwblhau archwiliadau dilysu ar y datganiad data, ac yn cynhyrchu adroddiadau o wallau ac ymholiadau. **Dylech geisio datrys cynifer o'r gwallau hyn ag y bo modd cyn anfon y datganiad ymlaen i Lywodraeth Cymru.** Os oes gwallau'n dal i fod ar y ffeil pan fo'r datganiad yn ein cyrraedd ni, yna mae'n bosib y byddwn yn gofyn iddo gael ei ailgyflwyno.

Bydd darparu cofnodion disgyblion unigol yn golygu y gallai datganiadau data AHYYY fod yn swmpus gan ei gwneud hi'n anodd eu gweld yn eu cyfanrwydd a'u harchwilio'n weledol er cywirdeb. Mae'r feddalwedd, felly, yn creu crynodeb o'r datganiad AHYYY, sy'n debyg o ran cynnwys i'r crynodeb a ddarparwyd i ysgolion ar gyfer CYBLD. Dylai fod yn gyfarwydd, felly, i staff yr awdurdod lleol sy'n cefnogi ysgolion. Dylid gwirio'r crynodeb hwn yn ofalus cyn awdurdodi'r datganiad a'i anfon ymlaen i Lywodraeth Cymru.

Dyma'r camau felly ar gyfer cynhyrchu eich datganiadau data AHYYY:

a. sicrhau bod yr holl ddata sy'n berthnasol i'r disgybl o ran categori'r ddarpariaeth

ac addysg ddewisol yn y cartref wedi'i gofnodi'n gywir i MIS eich awdurdod lleol;

b. creu datganiad data AHYYY, gan nodi unrhyw ddata yn ôl y gofyn;

c. adolygu adroddiadau o wallau ac ymholiadau, a datrys cynifer ohonynt ag y bo modd;

ch. gwirio'r crynodebau'n fawn, yn enwedig ar gyfer arwyddion ei bod yn bosibl nad oedd rhywfaint o'r data am ddisgyblion unigol wedi'i gynnwys;

d. sicrhau awdurdodiad y person perthnasol yn yr awdurdod lleol ac anfon y datganiad, drwy system trosglwyddo data ar-lein, y gwefan Menter Cyfnewid Data Cymru (DEWi), i Lywodraeth Cymru.

Dylid darllen y nodiadau cwblhau hyn ochr yn ochr ag unrhyw ganllawiau sy'n ymwneud yn benodol â'r feddalwedd rydych yn ei defnyddio i ddefnyddwyr datganiadau cyfrifiad AHYYY a allai fod ar gael drwy gyflenwr eich meddalwedd.

Mae'r nodiadau cwblhau yn adran 2 ac adran 3 yn disgrifio pob eitem ofynnol yn fanwl, gan ddarparu gwybodaeth lle bo hynny'n briodol ar:

- natur y data i'w ddychwelyd;
- y codau / categorïau dilys i'w defnyddio; a
- gwybodaeth gefndirol sy'n nodi unrhyw gafeatau neu amgylchiadau arbennig sy'n berthnasol.

Mae adran 4 ac adran 5 yn nodi gwybodaeth ychwanegol am graffu data, dilysu a'r drefn ar gyfer cyflwyno'r datganiad.

Nid yw'n ofynnol darparu datganiadau electronig o UCD. Pan fo UCD yn defnyddio fersiwn o system MIS ysgol, mae'n bosib y bydd awdurdodau lleol am ystyried sut y gellid trosglwyddo'r data'n electronig i'r awdurdod lleol er mwyn galluogi'r awdurdod lleol i gyflwyno un datganiad ar lefel disgyblion ar gyfer yr holl ddisgyblion mewn UCD ac mewn darpariaethau AHYYY eraill.

# 2. Newidiadau I AHYYY blwyddyn yma

## 2.1 Dim newid ar gyfer AHYYY am 2025

Does dim newid ar gyfer y casgliad data AHYYY 2025 ers y casgliad diwethaf.

# 3. Datblygiadau yn y dyfodol

## 3.1 Adolygiad hunaniaeth genedlaethol ac ethnigrwydd

Mae ystyriaethau yn parhau ar gofnodi a chasglu hunaniaeth genedlaethol ac ethnigrwydd unigolyn mewn ffordd gwell. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys trafodaethau gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG), Swyddfa Cydraddoldeb y Llywodraeth (SCLl) a'r Adran Addysg (AA) i sicrhau bod safon gytûn ystyriol a chydnaws yn cael ei defnyddio gan bob sefydliad. Mae'n debygol y bydd hyn yn arwain at newidiadau i'r ffordd y bydd y rhain yn cael eu cofnodi mewn casgliadau yn y dyfodol.

## 4. Cefndir

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio nid yn unig i gefnogi awdurdodau lleol yn y broses o gyfnewid data ar lefel disgyblion yn ddiogel ac yn gywir fel y gall athrawon a gweithwyr proffesiynol ym maes addysg wybod am ymgysylltiad, profiad a chyflawniadau blaenorol y plant. Mae hefyd yn datblygu polisi o amgylch cau'r bylchau mewn data er mwyn helpu awdurdodau lleol i olrhain disgyblion yn effeithiol a sicrhau bod ganddynt wybodaeth dda am y plant y maent yn gyfrifol amdanynt.

Oherwydd hynny ac i gefnogi'r ddyletswydd newydd, mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno'r hyn sy'n cyfateb i CYBLD ar gyfer plant sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol. **Bydd y wybodaeth a gesglir yn canolbwyntio ar blant sy'n derbyn addysg a noddir gan yr awdurdod lleol y tu allan i'r ysgol** yn unol â diffiniad Adran 19(1) Deddf Addysg 1996, h.y. y plant hynny sydd o oedran ysgol gorfodol sydd, oherwydd salwch, gwaharddiad neu reswm arall, heb dderbyn addysg addas am ryw gyfnod penodol.

O dan Adran 4 Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006, mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol wneud trefniadau i'w galluogi i sefydlu (cyn belled ag y bo'n bosibl gwneud hynny) pwy yw'r plant yn eu hardal hwy nad ydynt yn derbyn addysg addas.

Yr hyn a olygir gan addysg addas yw addysg amser llawn effeithiol sy'n addas i oedran, gallu a thueddfryd y plant ac i unrhyw anghenion addysgol arbennig a allai fod ganddynt. Mae'r ddyletswydd yn berthnasol i blant o oedran ysgol gorfodol nad ydynt ar gofrestr ysgol, ac nad ydynt yn derbyn addysg addas heblaw yn yr ysgol. Daeth y ddyletswydd i rym yng Nghymru ym mis Medi 2009.

Mae'r casgliad o ddata AHYYY yn helpu i lenwi'r bwlch sy'n bodoli mewn data am y disgyblion hynny nad ydynt mewn ysgol. Mae'n ddarparu data ychwanegol am y disgyblion hynny a fu gynt mewn ysgol ond nad ydynt bellach wedi'u cofrestru ar gofrestr yr ysgol yn ogystal â'r disgyblion hynny nad oeddent o bosibl wedi'u cofrestru mewn ysgol

Bydd y wybodaeth a gesglir yn helpu i lywio'r polisi ar sail gwybodaeth yng nghyswllt grŵp na fu gennym, yn hanesyddol, fawr o ddata arnynt. Bydd hefyd yn cefnogi awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswyddau statudol i wella deilliannau, lleihau anghydraddoldebau a chynllunio strategaethau ymyrraeth priodol yn fuan.

## 5. Pwy y dylid eu cynnwys yng nghyfrifiad blynyddol AHYYY?

Pob disgybl sy'n derbyn (neu'n disgwyl derbyn) darpariaeth addysgol heblaw mewn ysgol a gynhelir ac y mae'n bosib na fydd eu manylion yn cael eu casglu trwy'r CYBLD. Hynny yw, plant sy'n cael addysg a drefnwyd gan yr awdurdod lleol o dan adran 19A o Ddeddf Addysg 1996.

Y prif faen prawf dros gynnwys disgyblion yn y cyfrifiad AHYYY yw ei fod ar gyfer disgyblion y mae gan awdurdodau lleol yng Nghymru gyfrifoldeb dros drefnu ac ariannu addysg o dan adran 19A o Ddeddf Addysg 1996 ac, os na chawsant eu cynnwys yn y cyfrifiad hwn, na fyddent yn cael eu canfod drwy CYBLD.

Fodd bynnag, gall rhai disgyblion gael eu cynnwys yn ddilys yn y cyfrifiad AHYYY a hefyd ar CYBLD yr ysgol (ar gyfer ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig a gynhelir). Er enghraifft, mae'n bosib y byddai prif ffynhonnell addysg rhai o'r disgyblion mewn darpariaeth AHYYY, ond mae'n bosib iddynt fod wedi'u cofrestru hefyd mewn ysgol a gynhelir. Mewn achos o'r fath, mae'r awdurdod lleol hefyd yn cymryd cyfrifoldeb am addysg y disgybl ac, i adlewyrchu hyn, dylid cofnodi'r disgybl ar y cyfrifiad AHYYY.

Os yw disgybl yn derbyn darpariaeth AHYYY a hefyd yn mynychu ysgol a gynhelir, dylid dychwelyd y nifer yr oriau ar gyfer y ddwy ddarpariaeth. Er enghraifft, pan mae disgybl yn mynychu UCD ac ysgol a gynhelir, dylid defnyddio'r codau **PRU** a **SCH** a chofnodi'r oriau cyfatebol mae'r disgyblion yn mynychu ym mhob lleoliad.

Yn gyffredinol, byddem yn disgwyl i'r disgyblion a ganlyn gael eu cynnwys yn y datganiad hwn:

- disgyblion sy'n mynychu UCD;
- disgyblion sy'n derbyn hyfforddiant personol gartref neu mewn ysbyty;
- disgyblion sy'n cael eu haddysgu mewn cartrefi neu unedau preswyl - gan gynnwys cartrefi preswyl annibynnol oddi mewn neu oddi allan i'ch awdurdod lleol lle darperir addysg ar y safle ac y mae'r awdurdod lleol yn gyfan gwbl gyfrifol am y ddarpariaeth addysgol ar eu cyfer;
- disgyblion sy'n mynychu ysgol arbennig nas cynhelir ac y mae eich awdurdod lleol yn talu rhan neu'r cyfan o'r ffioedd hyfforddi ar eu cyfer;
- disgyblion mewn ysgol annibynnol (naill ai oddi mewn neu oddi allan i'r awdurdod lleol) ac y mae eich awdurdod lleol yn gyfrifol am dalu rhan neu'r cyfan o'r ffioedd hyfforddi ar eu cyfer;
- disgyblion sy'n mynychu ysgol a gynhelir yn ogystal â bod yn cael darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol;
- disgyblion sy'n derbyn darpariaeth sector preifat (naill ai oddi mewn neu oddi allan i'r awdurdod lleol) ac y mae eich awdurdod lleol yn gyfrifol am dalu rhan neu'r cyfan o'r ffioedd hyfforddi ar eu cyfer;
- disgyblion sydd wedi'u gwahardd yn barhaol adeg y cyfrifiad ac nad ydynt wedi'u dosbarthu i ysgol neu UCD arall neu sydd yn aros i gael eu derbyn; a
- disgyblion nad ydynt ar gofrestr ysgol ac sy'n disgwyl lleoliad mewn darpariaeth AHYYY (neu sydd ddim mewn darpariaeth ar hyn o bryd) yn ystod wythnos y cyfrifiad.

Wythnos y cyfrifiad yw **dydd Llun 20 Ionawr 2025** i **ddydd Gwener 24 Ionawr 2025**.

Os yw plentyn mewn darpariaeth AHYYY yn ystod wythnos y cyfrifiad, yna bydd yn ofynnol i'r ALl ddarparu gwybodaeth am bob darpariaeth y mae'r plentyn wedi'i mynychu neu a drefnwyd i'r plentyn ei mynychu yn ystod wythnos y cyfrifiad.

## 5.1 Plant mewn amgylchiadau arbennig

### Gwaharddiadau trawsffiniol

Os yw plentyn wedi'i wahardd ac yn cael darpariaeth AHYYY tra bo'r broses apelio'n cael ei chwblhau, cyfrifoldeb yr awdurdod lleol lle mae'r plentyn ar gofrestr ysgol yw adrodd gwybodaeth AHYYY y plentyn hwnnw.

### Disgyblion ag anghenion addysgol arbennig

Os yw plentyn ag anghenion addysgol arbennig yn derbyn darpariaeth AHYYY, yr ALl y mae'r plentyn yn 'perthyn' iddo yn unol â diffiniad Rheoliadau Addysg (Ardaloedd y mae Disgyblion a Myfyrwyr yn Perthyn Iddynt) 1996 fel y'u diwygiwyd, fydd yn gyfrifol am adrodd gwybodaeth AHYYY y plentyn hwnnw.

### Disgyblion heb rhif unigol disgybl (UPN)

Gall fod rhai amgylchiadau arbennig (er enghraifft, cyflwr meddygol difrifol) lle nad yw disgybl erioed wedi derbyn ei addysg o fewn y sector a gynhelir ac felly heb erioed gael UPN. Os na ellir dod o hyd i UPN sydd eisoes yn bod ar gyfer disgybl, rhaid i UPN gael ei bennu gan yr awdurdod lleol gan ddefnyddio'r cyfleuster creu UPN sydd ar wefan yr Adran Addysg (DfE) https://www.gov.uk/government/publications/unique-pupil-numbers.

Yr DfE sy'n gyfrifol am gynnal y cyfleuster creu UPN a chaiff ei adnewyddu o'r newydd bob blwyddyn academaidd newydd.

### Disgyblion nad ydynt yn byw yng Nghymru

Mae nifer bychan o blant a phobl ifanc o awdurdodau lleol y tu allan i Gymru yn derbyn eu darpariaeth AHYYY yng Nghymru. Yn aml, mae'r plant hyn yn cael eu maethu'n breifat ac yn byw o fewn awdurdod lleol yng Nghymru. O dan amgylchiadau o'r fath, yr awdurdod lleol yng Nghymru, er nad yw'n gweithredu fel rhiant corfforaethol ar ei gyfer, sy'n gyfrifol am addysg y plentyn hwnnw AHYYY. O dan amgylchiadau o'r fath, hoffem weld yr awdurdod lleol yng Nghymru lle mae'r plentyn yn byw yn adrodd gwybodaeth AHYYY y plentyn hwnnw.

### Lle nad yw'r 'categori darpariaeth' yn adlewyrchu'n gywir y ddarpariaeth a roddir

Os nad ydym wedi nodi'r holl fathau o AHYYY sydd ar gael yng Nghymru, defnyddiwch y categori 'Arall' a nodwch yn y blwch testun pa ddarpariaeth yn union sy'n cael ei chynnig.

# 6. Y casgliad

Dylai'r rhan fwyaf o eitemau o ddata ar lefel disgyblion sy'n ofynnol ar gyfer y datganiad hwn fod yn gyfarwydd i'r awdurdodau lleol oherwydd eu bod eisoes yn bodoli o fewn systemau MIS ysgolion ac yn ofynnol fel rhan o ddatganiad CYBLD ysgolion. Fodd bynnag, mae tair eitem o ddata sy'n benodol i'r casgliad hwn.

Mae'r tair eitem fel a ganlyn:

## 6.1 Categori'r ddarpariaeth

Mae'r eitem hon o ddata'n dynodi categori'r ddarpariaeth ar gyfer pob disgybl. Bydd y disgybl wedi'i leoli naill ai mewn UCD neu mewn ffurf arall ar ddarpariaeth AHYYY. Dyma'r categorïau a'r codau tri digid sy'n gysylltiedig â phob categori:

| | |
|---|---|
| UCD | Uned Cyfeirio Disgyblion |
| FEC | Coleg Addysg Bellach |
| SCH | Ysgol gynradd, canol, uwchradd neu arbennig a Gynhelir |
| NMS | Ysgol arbennig nas cynhelir |
| TUI | Hyfforddiant personol a hyfforddiant yng nghartref y disgybl neu mewn ysbyty |
| GAT | Porth Ieuenctid |
| WRE | Addysg gysylltiedig â gwaith |
| TPR | Darparwyr hyfforddiant |
| VOG | Mudiadau gwirfoddol |
| PSP | Darpariaeth a ddaeth i mewn o'r sector preifat |
| IND | Ysgolion annibynnol |
| FEE | Disgybl sy'n mynychu darpariaeth nas cynhelir gan yr awdurdod, neu y tu allan i'r awdurdod, y mae'r awdurdod yn talu ffioedd amdani |
| NIP | Yn disgwyl darpariaeth neu ddim mewn darpariaeth ar hyn o bryd |
| OTH | Arall |

Yr eitem o ddata ar gyfer y casgliad fydd y cod 3 llythyren (nid y disgrifiad o'r categori) o'r rhestr uchod. Bydd yr eitem hon o ddata, ynghyd â chod yr awdurdod lleol, yn dynodi 'categori' y ddarpariaeth a wneir gan yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol.

Bydd yn ofynnol nodi data ychwanegol ar gyfer tri o'r categorïau, fel a ganlyn:

- **Uned cyfeirio disgyblion** - bydd yn **rhaid cynnwys** rhif 7 digid yr awdurdod lleol **a** rhif sefydliad yr UCD. Defnyddiwch y ddolen isod i weld y rhif cywir ar gyfer yr awdurdod lleol a rhif sefydliad yr UCD https://llyw.cymru/rhestr-gyfredol-o-ysgolion

Defnyddiwch y ddolen isod i weld y rhif cywir ar gyfer yr awdurdod lleol a rhif sefydliad yr UCD yn Lloegr https://get-information-schools.service.gov.uk/.

- **Ysgol a gynhelir** - bydd **rhaid** cynnwys rhif 7 digid yr awdurdod lleol **a** rhif y sefydliad

- **Arall** – bydd angen cynnwys disgrifiad testun o'r categori arall

Mae'n bosibl y caiff disgybl ei leoli mewn mwy nag un categori o ddarpariaeth ar yr un pryd e.e. rhan o'r wythnos mewn coleg AB a rhan o'r wythnos gyda darparwr gwirfoddol neu UCD. Mewn achos o'r fath, dylid dychwelyd gwybodaeth am yr holl gategorïau o ddarpariaeth a drefnwyd ar gyfer y disgybl (nid dim ond y rhai y mae'r disgybl yn eu mynychu mewn gwirionedd) yn ystod wythnos y cyfrifiad.

## 6.2 Oriau'r ddarpariaeth

Pwrpas yr eitem hon o ddata yw dynodi nifer yr oriau o ddarpariaeth a wneir ar gyfer pob disgybl yn ystod wythnos casgliad AHYYY. Dylid cynnwys oriau'r ddarpariaeth ar gyfer pob categori yn ystod wythnos y cyfrifiad. Lle nad oedd y disgyblion yn derbyn darpariaeth ar gyfer wythnos y cyfrifiad yna mae 0 awr yn ymateb dilys. Bydd rhifau gyda un pwynt degol yn cael eu derbyn.

## 6.3 Addysg ddewisol yn y cartref

Eitem ar 'lefel sefydliad' yw hon, h.y. eitem o ddata ar lefel awdurdod lleol, ac nid ar lefel disgybl. Bydd yr eitem yn cynnwys disgyblion drwy gyfeirio at ryw ac oedran. Fodd bynnag, mae'r meysydd hyn yn ddewisol a gallant gael eu hepgor. Pennir yr oedran ar sail eu hoedran ar y 31 Awst blaenorol. Os nad yw'r awdurdod lleol yn gwybod oedran y plentyn, byddem yn gofyn iddynt roi amcangyfrif o oedran y plentyn. Er nad oes sail gyfreithiol i awdurdodau gasglu data personol am ddisgyblion a gaiff eu haddysgu gartref gan eu rhieni h.y. nad yw'r awdurdod yn talu amdano, mae disgwyl i'r awdurdodau lleol fod yn ymwybodol o ddisgyblion o'r fath, yn enwedig pan fo rhiant wedi rhoi rhybudd i ysgol fod rhiant yn tynnu plentyn allan o'r ysgol i addysgu'r plentyn gartref.

# 7. Gwybodaeth sy'n ofynnol ar lefel awdurdod lleol

Dyma'r **manylion y mae'n ofynnol eu nodi ar gyfer** yr awdurdod lleol:

| | |
|---|---|
| **Rhif yr awdurdod lleol** | Yn cynnwys tri digid yn yr ystod 660-681 am awdurdodau lleol Cymraeg. Mae holl godau awdurdodau lleol dilys yn y DU hefyd yn derbynnol. |
| **Rhif y sefydliad** | Yn cynnwys pedwar digid, h.y. NNNN<br><br>Mae'n hanfodol fod y ddau god yn gywir. |

Mae'r manylion a ganlyn am **ddisgyblion a addysgir gartref lle mae rhieni wedi dewis darparu'r addysg eu hunain** yn ofynnol:

| | |
|---|---|
| **Cyfrif o'r disgyblion (dewisol)** | Cyfrif o'r disgyblion drwy gyfeirio at ryw ac oedran. Pennir yr oedran ar sail eu hoedran ar 31 Awst blaenorol.<br><br>Ni chaiff ffeil ei gwrthod os nad oes data 'addysgu gartref' ond bydd yn arwain at ymholiad. |

# 8. Y data sy'n ofynnol ar lefel disgyblion unigol

Mae data am ddisgyblion unigol yn ofynnol ar gyfer pob disgybl y mae'r awdurdod lleol yn darparu ar eu cyfer mewn UCD neu ffurf arall ar addysg yn hytrach nag mewn ysgol yn ystod wythnos y Cyfrifiad. Wythnos y cyfrifiad yw **dydd Llun 20 Ionawr 2025** i **ddydd Gwener 24 Ionawr 2025**. Yn adran 2 y canllawiau hyn, ceir gwybodaeth bellach ynghylch math y disgybl y dylid eu cynnwys yn y casgliad hwn.

Oni bai eu bod wedi'u nodi fel rhai dewisol, ni chaniateir gwerthoedd coll (h.y. bylchau) ar gyfer yr un eitem o ddata ac, os oes bylchau, bydd hynny'n arwain at fethiant wrth ddilysu.

Mae'r gwerthoedd cod a welir isod ar gyfer y gwahanol eitemau o ddata yn adlewyrchu'r gwerthoedd yn y ffeil ddata sy'n cael ei pharatoi gan y feddalwedd i'w thrawsyrru i Lywodraeth Cymru. Mae'n bosib na fydd y gwerthoedd hyn yn cyd-fynd bob amser â'r modd y mae'r feddalwedd yn cadw'r data'n fewnol neu'n ei gyflwyno i chi ar y sgrin.

## 8.1 Disgyblion ar gofrestr UCD yn ystod wythnos y cyfrifiad

Caiff y broses o gofrestru disgyblion mewn UCD ei llywodraethu gan Reoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010 yn yr un modd ag ysgolion. Mae Rheoliad 6 yn pennu'r wybodaeth y dylai cofrestr derbyn yr ysgol ei chynnwys, ac yn Rheoliad 9 nodir o dan ba amgylchiadau y caniateir tynnu disgybl oddi ar y gofrestr.

Fodd bynnag, dylid darparu gwybodaeth yn achos y disgyblion hynny a leolir mewn UCD pan fo'r awdurdod lleol yn gyfrifol o safbwynt ariannol am ddarparu'r addysg iddynt. Mae'n bosib i'r ddarpariaeth ar gyfer y disgybl fod oddi mewn neu oddi allan i ardal yr awdurdod lleol (**SYLWER**: mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol gyflwyno un datganiad ar gyfer pob disgybl y mae'n gyfrifol amdanynt. Yn wahanol i'r hen gasgliad STATS1, nid oes gofyn i'r awdurdod lleol sy'n cyflwyno'r datganiad gynnwys disgyblion sydd wedi'u lleoli ar hyn o bryd mewn UCD o fewn yr awdurdod lleol ond sy'n byw y tu allan i ardal yr awdurdod lleol ac y mae'r awdurdod lleol arall yn gyfrifol amdanynt yn ariannol h.y. yn talu am y ddarpariaeth.)

Ar gyfer pob disgybl, boed mewn UCD neu'n cael eu haddysgu ar ffurf arall, mae'n ofynnol darparu'r manylion adnabod a ganlyn:

**Rhif unigryw'r disgybl (UPN)**

Rhaid iddo fod yn UPN dilys gyda 13 chymeriad. Bydd y feddalwedd yn sicrhau nad oes dau (neu ragor) o ddisgyblion yn meddu ar yr un UPN. Byddai gwallau o'r fath yn cael eu datrys cyn i'r datganiad gael ei drosglwyddo i Lywodraeth Cymru neu bydd yn cael ei wrthod. Mae'n bosib y bydd nifer o ddisgyblion na ddyrannwyd UPN ar eu cyfer e.e. disgybl na chafodd ei gofrestru erioed mewn ysgol a gynhelir. Oni ellir canfod UPN ar gyfer disgybl, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ddyrannu UPN gan ddefnyddio'r ddyfais cynhyrchu UPN a leolir ar wefan yr Adran Addysg https://www.gov.uk/government/publications/unique-pupil-numbers.

Yr DfE sy'n cynnal y ddyfais cynhyrchu UPN ac mae dyfais cynhyrchu newydd ar gael bob blwyddyn academaidd.

| | |
|---|---|
| **Rhif unigryw'r dysgwr (ULN)** | Rhaid iddo fod yn rif dilys gyda deg nod. Ni chaniateir sero fel y nod cyntaf. Dim ond drwy Gofrestr Dysgwyr y Gwasanaeth Cofnodion Dysgu y gellir cael Rhif Unigryw'r Dysgwr **am ddisgyblion oed 14 neu'n hŷn**. Cewch fwy o wybodaeth am Rif Unigryw'r Dysgwr a chanllawiau yn https://llyw.cymru/rheoli-gwybodaeth-i-ysgolion. |
| **UPN blaenorol** | Os yw disgybl wedi cael UPN arall o'r blaen. Os nad oes UPN o'r fath yn bodoli, dylid gadael y maes hwn yn wag. |
| **Cyfenw** | Cyfenw llawn, yn ôl yr hyn a dybia'r awdurdod lleol. |
| **Enw blaen** | Yn llawn, heb ei dalfyrru, a heb ddefnyddio ffurfiau eraill ar yr enw. |
| **Enw(au) canol** | Yn llawn, heb eu talfyrru, a heb ddefnyddio ffurfiau eraill ar yr enw(au). Os nad oes enw(au) canol gan ddisgybl, dylid gadael y maes hwn yn wag. |
| **Dyddiad geni** | Yn y fformat **CCBB-MM-DD**. |
| **Rhyw** | **M** (gwrywaidd) neu **F** (benywaidd). |

Dyma'r nodweddion sy'n ofynnol ar gyfer y disgyblion:

**Hunaniaeth genedlaethol**

Hunaniaeth genedlaethol yw'r grŵp cenedlaethol y mae plentyn yn uniaethu ei hunan ag ef. Nodwch fod yn rhaid i'r maes hwn gael ei lenwi ar gyfer pob disgybl o oed ysgol statudol. Mae hunaniaeth genedlaethol disgyblion, ynghyd â'u grŵp ethnig, yn destun canllawiau ar wahân, 'Casglu a chofnodi data am gefndir ethnig disgyblion'. Gellir defnyddio'r canllawiau hyn wrth gwblhau'r maes hwn (yn ogystal ag ethnigrwydd a ffynhonnell ethnigrwydd). Mae'r canllawiau hyn i'w cael hefyd fel a ganlyn https://llyw.cymru/casglu-data-am-gefndir-ethnig-disgyblion-ai-gofnodi-canllaw-i-ysgolion-ac-awdurdodau-lleol.

Y categorïau ar gyfer hunaniaeth genedlaethol:

| | |
|---|---|
| WAL | Cymreig |
| ENG | Seisnig |
| SCO | Albanaidd |
| IRE | Gwyddelig |
| BRI | Prydeinig |
| OTH | Arall |
| REF | Rhiant / disgybl yn gwrthod rhoi'r wybodaeth |
| NOS | Ni chafwyd yr wybodaeth |

**Grŵp ethnig**

Nodwch fod yn rhaid i'r maes hwn gael ei lenwi ar gyfer pob disgybl o oed ysgol statudol. Hefyd, defnyddiwch y

canllawiau ar wahân a grybwyllir uchod wrth gwblhau'r adran hon. Mae'r canllawiau hyn i'w cael hefyd fel a ganlyn https://llyw.cymru/casglu-data-am-gefndir-ethnig-disgyblion-ai-gofnodi-canllaw-i-ysgolion-ac-awdurdodau-lleol.

Mae categorïau cefndir ethnig wedi'u rhannu'n brif gategorïau ac yn is-gategorïau (estynedig). Mae'r drefn y dylech ei dilyn yr un peth â'r hyn y byddech yn ei wneud ar gyfer unrhyw ddisgybl arall (gweler y canllawiau).

Dyma'r categorïau ar gyfer cefndir ethnig:

| Prif godau: | | Codau estynedig: | |
|---|---|---|---|
| **WBRI** | Gwyn - Prydeinig | | |
| **WIRT** | Teithiwr | **WITH** | Teithiwr o Dras Wyddelig |
| | | **WNAG** | Teithiwr Newydd |
| | | **WOCC** | Teithiwr Galwedigaethol |
| | | **WOTT** | Teithiwr Arall |
| | | | Pobl Sioe |
| | | **WSHP** | |
| | | | Sipsi Prydeinig |
| **WRGG** | Sipsi | **WOBG** | Sipsi o Wledydd Eraill |
| | | **WOOG** | Sipsi Arall |
| | | | Roma UE |
| | | **WOTG** | Roma o Wledydd Eraill |
| **WRRR** | | **WOER** | Roma Arall |
| | Roma | **WOOR** | |
| | | **WOTR** | |
| **WOTH** | Unrhyw gefndir gwyn arall | **WALB** | Albaniaidd |
| | | **WBOS** | Bosniaidd-Herzegovinaidd |
| | | **WBUL** | Bwlgaraidd |
| | | **WCRO** | Croataidd |
| | | **WCZE** | Tsiecaidd |
| | | **WFRE** | Ffrengig |
| | | **WGER** | Almaenig |
| | | **WGRE** | Groegaidd/Cypraidd Groegaidd |
| | | **WHUN** | Hwngaraidd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | **WITA** | Eidalaidd |
| | | **WKOS** | Kosofanaidd |
| | | **WLAT** | Latfiaidd |
| | | **WLIT** | Lithuanian |
| | | **WMAL** | Maltaidd |
| | | **WMON** | Montenegroaidd |
| | | **WPOL** | Pwylaidd |
| | | **WPOR** | Portiwgeaidd |
| | | **WRMA** | Rwmanaidd |
| | | **WRUS** | Rwsiad |
| | | **WSCA** | Sgandinafaidd |
| | | **WSER** | Serbiaidd |
| | | **WSVK** | Slofacaidd |
| | | **WSVN** | Slofenaidd |
| | | **WSPA** | Sbaenaidd |
| | | **WTUR** | Twrcaidd/ Cypraidd Twrcaidd |
| | | **WUKR** | Wcreinaidd |
| | | **WEUR** | Ewropeaidd Gwyn Arall |
| | | **WOTW** | Gwyn Arall |
| **MWBC** | Gwyn a Charibïaidd Du | | |
| **MWBA** | Gwyn ac Affricanaidd Du | | |
| **MWAS** | Gwyn ac Asiaidd | | |
| **MOTH** | Unrhyw Gefndir Cymysg Arall | **MWCH** | Gwyn a Tsieinïaidd |
| | | **MWOE** | Gwyn ac Unrhyw Grŵp Ethnig Arall |
| | | **MABL** | Asiaidd a Du |
| | | **MACH** | Asiaidd a Tsieinïaidd |
| | | **MAOE** | Asiaidd ac Unrhyw Grŵp Ethnig Arall |
| | | **MBCH** | Du a Tsieinïaidd |
| | | **MBOE** | Du ac Unrhyw Grŵp Ethnig Arall |
| | | **MCOE** | Tsieinïaidd ac Unrhyw Grŵp Ethnig Arall |
| | | **MOTM** | Cefndir Cymysg Arall |
| **AIND** | Indiaidd | | |
| **APKN** | Pakistanaidd | **AMPK** | Pacistanaidd Mirpuri |
| | | **AOPK** | Pacistanaidd Arall |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **ABAN** | Bangladeshi | | |
| **AOTH** | Unrhyw Gefndir Asiaidd Arall | **AAFR** | Asiaidd Affricanaidd |
| | | **AKAS** | Kashmiraidd |
| | | **ANEP** | Nepalaidd |
| | | **ASNL** | Sinhalesaidd |
| | | **ASLT** | Tamil Sri Lankaidd |
| | | **AOTA** | Asiaidd Arall |
| **BCRB** | Caribïaidd | | |
| **BAFR** | Affricanaidd | **BERI** | Eritreaidd |
| | | **BGHA** | Ghanaidd |
| | | **BNGN** | Nigeraidd |
| | | **BSLN** | Sierra Leonaidd |
| | | **BSOM** | Somalaidd |
| | | **BSUD** | Sudaneaidd |
| | | **BAOF** | Affricanaidd Du Arall |
| **BOTH** | Unrhyw gefndir du arall | | |
| | | **BEUR** | Ewropeaidd Du |
| | | **BNAM** | Du Gogledd America |
| | | **BOTB** | Du Arall |
| **CHNE** | Tsieinïaidd neu Brydeinig Tsieinïaidd | **CHKC** | Tsieinïaidd Hong Kong |
| | | **CMAL** | Tsieinïaidd Malaysiaidd |
| | | **CSNG** | Tsieinïaidd Singaporaidd |
| | | **CTWN** | Taiwaneaidd |
| | | **COCH** | Tsieinïaidd Arall |
| **OOTH** | Unrhyw gefndir ethnig arall | **OAFG** | Affgan |
| | | **OARA** | Arabaidd |
| | | **OEGY** | Eifftaidd |
| | | **OFIL** | Ffilipinaidd |
| | | **OIRN** | Iranaidd |
| | | **OIRQ** | Iracaidd |
| | | **OJPN** | Siapaneaidd |
| | | **OKOR** | Koreaidd |
| | | **OKRD** | Kurdaidd |
| | | **OLAM** | Americanaidd Lladin/De/ Canolbarth |
| | | **OLIB** | Libiaidd |

| | |
|---|---|
| **OLEB** | Lebaneaidd |
| **OMAL** | Malaiaidd |
| **OMRC** | Morocaidd |
| **OPOL** | Polyneaidd |
| **OSAU** | Saudi Arabaidd |
| **OSYR** | Syriaidd |
| **OTHA** | Thai |
| **OVIE** | Fietnameaidd |
| **OYEM** | Yemenaidd |
| **OOEG** | Grŵp Ethnig Arall |

| | |
|---|---|
| **REFU** | Gwrthodwyd rhoi'r wybodaeth |
| **NOBT** | Ni chafwyd yr wybodaeth |

**Ffynhonnell y data cefndir ethnig**

Dyma werthoedd posibl y cod ffynhonnell:

| | |
|---|---|
| **C** | darparwyd gan y plentyn (h.y. y disgybl) |
| **P** | darparwyd gan y rhiant |
| **S** | priodolwyd gan yr ysgol bresennol |
| **T** | priodolwyd gan ysgol flaenorol |
| **O** | arall (neu ni wyddys). |

**Cymhwyster i gael prydau ysgol am ddim**

**1** (cywir) neu **0** (anghywir)

Ers 1 Ebrill 2019, y meini prawf cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim yw bod yn rhaid i'r ymgeisydd for yn derbyn Dredyd Cynhwysol a bod ag incwm blynyddol o dan y trothwy o £7,400.

Yn ogystal à'r meini prawf uchod, mae plant gyda'i rhieni'n derbyn y taliadau etifeddiaeth cymorth canlynol hefyd yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru:

- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm
- Cymorth o dan Ran VI o Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm
- Credyd Treth Plant, ar yr amod nad oes hawl ganddynt gael Credyd Treth Gwaith ac nid yw eu hincwm blynyddol yn fwy na £16,190
- Elfen warantedig Credyd Pensiwn y Wladwriaeth
- Taliadau Credyd Treth Gwaith ychwanegol – y taliadau ychwanegol y gall unigolyn eu derbyn am bedair wythnos yn ychwanegol ar ôl i'w hawl i dderbyn Credyd Treth Gwaith ddod i ben.

Mae pobl ifanc sy'n cael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm, Credyd Cynhwysol, Cymhorthdal Incwm neu Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm yn eu rhinwedd eu hunain hefyd yn gallu hawlio prydau ysgol am ddim.

Dylai disgyblion gael eu cofnodi’n gymwys dim ond os ydynt wedi gwneud cais i'r awdurdod lleol am brydau ysgol am ddim ac (1) mae'r awdurdod perthnasol wedi cadarnhau eu bod yn gymwys, neu (2) maent yn dal i aros am gadarnhad terfynol eu bod yn gymwys ond mae'r ysgol wedi gweld dogfennau sy'n rhoi arwydd cryf eu bod yn gymwys.

**Gwarchodaeth trosiannol i gael prydau ysgol am ddim**

**1** (cywir) neu **0** (anghywir)

Ar 1 Ebrill 2019 cyflwynodd Llywodraeth Cymru polisi gwarchodaeth trosiannol newydd ar gyfer prydau ysgol am ddim. Daethpwyd â hyn i mewn i sicrhau bod prydau ysgol am ddim y disgyblion yn cael eu gwarchod yn ystod y cyfnod cyflwyno Credyd Cynhwysol.

Mae'r gwarchodaeth hwn yn berthnasol i ddisgyblion unigol a bydd yn parhau tan ddiwedd eu cyfnod ysgol presennol, sef diwedd ysgol gynradd neu ddiwedd ysgol uwchradd.

Dylai unrhyw ddisgybl a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim wrth gyflwyno'r polisi ar 1 Ebrill 2019 hefyd gael gwarchodaeth trosiannol. Yn ogystal, dylid gwarchod unrhyw ddisgybl sydd wedi dod yn gymwys ar unrhyw adeg yn ystod y broses o gyflwyno Credyd Cynhwysol o dan y meini prawf cymhwysedd newydd.

Mae hyn yn golygu bod y mae hi’n bosib i ddisgybl fod yn **0** (anghywir) ar gyfer yr eitem ddata cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim, ond i fod yn **1** (cywir) ar gyfer cymhwysedd am prydau ysgol am ddim o dan gwachodaeth trosiannol.

**NODYN PWYSIG**: Gan fod y cymhwysedd prydau ysgol am ddim yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cyfrifiadau cyllido, mae'n bwysig bod yr eitemau data <FSMEligible> a <FSMTransitionalProtection> yn cael eu cofnodi ar wahân ac yn gywir.

Dyma’r manylion am statws y disgyblion sy’n ofynnol:

**Grŵp blwyddyn**

Y grŵp blwyddyn y câi’r disgybl ei ddysgu ynddo am y rhan fwyaf o’r amser, beth bynnag am ei oedran cronolegol, pe bai yn yr ysgol. Bydd y gwerthoedd a ganlyn yn berthnasol i’r rhan fwyaf o’r achosion (bydd

yr oedrannau fel ag yr oeddent ar y 31 Awst blaenorol):

**N1** meithrin, iau na 3 oed
**N2** meithrin, oedran yn hŷn na 3, neu'n cyfateb i 3 ond yn iau na 4
**R** derbyn
**1-14** grwpiau blwyddyn 1-14.

Os nad oes gwybodaeth ar gael i'r awdurdod lleol am y grŵp blwyddyn y byddai'r disgybl yn cael ei ddysgu ynddo pe bai yn yr ysgol, dylid seilio'r grŵp blwyddyn ar oedran.

**Cod post cartref**

Gwnewch yn siŵr bod y wybodaeth a ddarperir yn cyfateb i un o'r ffurfiau dilys ar gyfer codau post, sef:

An na
AAn na
Anna na
Ann na
AAnA nAA
AAnn nAA

Lle mae 'A' yn dynodi prif lythyren ac 'n' yn dynodi rhif o 0 i 9. Gwallau sy'n gyffredin wrth gofnodi codau post yw drysu llythrennau gyda rhifau tebyg (e.e. y llythyren 'O' gyda'r rhif sero), peidio â gadael bwlch yn y canol, neu gynnwys atalnod llawn. Bydd unrhyw un o'r rhain yn golygu y caiff y cod post ei wrthod fel un annilys.

Dylai'r feddalwedd newid unrhyw 'O' ar ddechrau ail floc y cod post yn 0 (sero), a newid bylchau dwbl rhwng blociau'r cod post yn fylchau sengl.

Cafodd gwiriad arall ei ychwanegu yn 2012: ar gyfer ail ran cod post ar ôl y bwlch (ee XXX **XXX)**, ni chaniateir y llythrennau CIKMOV.

Disgwylir y bydd ysgolion yn gallu darparu cod post cartref dilys i'r mwyafrif helaeth o'u disgyblion. Fodd bynnag, mewn achosion unigol pan nad yw ysgol yn gwybod cod post cartref yr unigolyn, dylid gadael y maes hwn yn wag.

Dyma'r manylion sydd eu hangen am anghenion addysgol arbennig disgyblion:

Anfonwyd canllawiau manwl ar y newidiadau i'r eitemau data AAA a dewis y gwerthoedd priodol yn wreiddiol i awdurdodau lleol ac ysgolion ym mis Awst 2007, fel Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 024-07, 'Canllawiau ar gyfer Systemau Rheoli Gwybodaeth Ysgolion: Canllawiau i gynorthwyo â chofnodi Anghenion Addysgol Arbennig Disgyblion ar Systemau Rheoli Gwybodaeth Ysgolion. Cafwyd y ddogfen

cyfarwyddyd yma ei ddiweddaru yn Tachwedd 2013, ' I weld y ddogfen ewch i https://llyw.cymru/canllaw-ar-gyfer-systemau-rheoli-gwybodaeth-ysgolion.

**Darpariaeth AAA disgybl**

Rhaid cofnodi darpariaeth AAA y disgybl (a elwid gynt yn statws neu gam AAA) y disgybl. Ceir canllawiau pellach yn y Cod Ymarfer AAA Mae'r canllawiau ar gael fel a ganlyn https://llyw.cymru/anghenion-addysgol-arbennig-cod-ymarfer ac yn y canllawiau a nodir uchod.

Dyma'r codau dilys:

| | |
|---|---|
| **N** | Dim darpariaeth arbennig |
| **A** | Gweithredu gan yr Ysgol neu Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar |
| **P** | Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy |
| **S** | Datganiad |
| **C** | Cynllun Datblygu Unigol a gynhelir gan yr Ysgol |
| **L** | Cynllun Datblygu Unigol a gynhelir gan yr Awdurdod Lleol |

Os yw eich ALl chi yn gweithredu camau ychwanegol, yna penderfynwch pa un o'r pedwar cod uchod sydd fwyaf priodol i ddisgyblion ar y camau hynny. Rhaid rhoi un o'r codau uchod i bob disgybl. Os nodir prif angen arbennig heblaw DNA, yna **rhaid** nodi A, P, S, C neu L ar gyfer y ddarpariaeth AAA.

**Angen arbennig**

Dylai pob angen arbennig gael ei gofnodi. Bydd eich meddalwedd yn caniatáu i chi gyflwyno cynifer o anghenion ag sy'n ofynnol. Os oes gan ddisgybl ddatganiad, dylai adlewyrchu'r angen a nodir yn y datganiad hwnnw. Os yw disgybl yn y broses o gael ei asesu neu'i gyfeirio, cyn cael datganiad, o bosib, (codau A neu P uchod) ond nad yw wedi cael datganiad ffurfiol hyd yn hyn, dylai'r ysgol nodi'r cod sydd fwyaf priodol i natur y ddarpariaeth arbennig y mae'n ei dderbyn. Dyma'r codau dilys:

| | |
|---|---|
| **DYSL** | SPLD - Dyslecsia |
| **DYSC** | SPLD – Dyscalculia |
| **DYSP** | SPLD – Dyspracsia |
| **ADHD** | SPLD – Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd |
| **MLD** | Anawsterau dysgu cymedrol |
| **SLD** | Anawsterau dysgu difrifol |
| **PMLD** | Anawsterau dysgu dwys a lluosog |
| **BESD** | Anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol |
| **SLCD** | Anawsterau lleferydd, iaith a chyfathrebu |
| **HI** | Nam ar y clyw |

| | |
|---|---|
| **VI** | Nam ar y golwg |
| **MSI** | Nam aml synhwyraidd |
| **PMED** | Anawsterau corfforol a meddygol |
| **ASD** | Anhwylderau ar y sbectrwm awtistig |
| **DNA** | Amherthnasol |

Mae angen y manylion a ganlyn ynghylch categori'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion:

**Categori'r ddarpariaeth**

Bydd yr eitem hon o ddata yn dynodi categori'r ddarpariaeth ar gyfer pob disgybl. Bydd y disgybl wedi'i leoli mewn UCD neu mewn ffurf arall o AHYYY. Bydd y categorïau (a'r codau tri digid i'w defnyddio mewn systemau) fel a ganlyn -

| | |
|---|---|
| **PRU** | Uned Cyfeirio Disgyblion |
| **FEC** | Coleg Addysg Bellach |
| **SCH** | Ysgol gynradd, ganol, uwchradd neu arbennig a gynhelir |
| **NMS** | Ysgol arbennig nas cynhelir |
| **TUI** | Hyfforddiant personol a hyfforddiant yng nghartref y disgybl neu mewn ysbyty |
| **GAT** | Porth Ieuenctid |
| **WRE** | Addysg gysylltiedig â gwaith |
| **TPR** | Darparwyr hyfforddiant |
| **VOG** | Mudiadau gwirfoddol |
| **PSP** | Darpariaeth a brynwyd i mewn o'r sector preifat |
| **IND** | Ysgolion annibynnol |
| **FEE** | Disgybl sy'n mynychu darpariaeth nas cynhelir gan yr awdurdod, neu y tu allan i'r awdurdod, y mae'r awdurdod yn talu ffioedd amdani |
| **NIP** | Yn disgwyl darpariaeth neu ddim mewn darpariaeth ar hyn o bryd |
| **OTH** | Arall |

Yr eitem o ddata at ddibenion casglu fydd y cod 3 llythyren (nid y disgrifiad o'r categori) o'r rhestr uchod. Bydd yr eitem hon o ddata, ynghyd â'r dynodydd awdurdod lleol, yn dynodi 'categori' y ddarpariaeth a wneir gan yr awdurdod lleol cyfrifol.

Bydd angen data ychwanegol ar gyfer tri o'r categorïau fel a ganlyn:

**Uned Cyfeirio Disgyblion** – **rhaid** cynnwys rhif 7 digid yr awdurdod lleol **a** rhif y sefydliad

**Ysgol a gynhelir** – **rhaid** cynnwys rhif 7 digid yr awdurdod lleol **a** rhif y sefydliad

**Arall** – bydd angen cynnwys disgrifiad ar ffurf testun o'r categori arall

| | |
|---|---|
| | Mae'n bosibl y bydd y disgybl wedi'i leoli mewn mwy nag un categori o ddarpariaeth ar yr un pryd e.e. rhan o'r wythnos mewn coleg AB a rhan o'r wythnos gyda darparwr gwirfoddol neu mewn UCD. Mewn achos o'r fath, dylid dychwelyd gwybodaeth am bob categori o ddarpariaeth lle trefnwyd i'r disgybl eu mynychu (nid dim ond y rhai y mae'r disgybl yn eu mynychu mewn gwirionedd) yn ystod wythnos y cyfrifiad. |
| **Oriau'r ddarpariaeth** | Mae'r eitem hon o ddata yn nodi nifer yr oriau o ddarpariaeth a wneir ar gyfer pob disgybl yn ystod wythnos y cyfrifiad. Dylid cynnwys oriau'r ddarpariaeth ar gyfer pob categori yn ystod wythnos y cyfrifiad. |
| **Awdurdod lleol a sefydliad** | Os yw disgybl wedi'i gofrestru mewn UCD neu wedi'i leoli mewn ysgol fel rhan o'r ddarpariaeth yn ystod wythnos y cyfrifiad, rhaid cynnwys y rhif Sefydliad pedwar digid a rhif awdurdod lleol tri digid yr UCD neu'r ysgol. |
| **Categori arall o ddarpariaeth** | Os yw'r disgybl yn mynychu categori arall o ddarpariaeth a ddangosir fel 'arall' yn ystod wythnos y cyfrifiad, rhaid cynnwys disgrifiad o'r categori hwnnw o ddarpariaeth. |

Mae angen y manylion canlynol ar ddisgyblion a waharddwyd (yn barhaol ac am gyfnod penodol) yn ystod blwyddyn ysgol 2023/2024:

Dylid cyfrif gwaharddiadau os oedd dyddiad y gwaharddiad yn ystod y cyfnod 1 Medi 2023 i 31 Awst 2024, lle bo dyddiad y gwaharddiad:

- pan benderfynwyd gwahardd yn barhaol gan banel apêl annibynnol; neu
- pan ddaeth y cyfnod a ragnodwyd ar gyfer apêl i ben neu fod y rhiant heb hysbysu'r awdurdod lleol am unrhyw fwriad i apelio; neu
- pan hysbyswyd yr awdurdod lleol yn ysgrifenedig gan y rhiant nad oedd yn bwriadu apelio; neu
- pan dynnodd y rhiant yn ôl o'r broses apelio, ar ôl hysbysu'r awdurdod lleol o'i fwriad i apelio.

Ni ddylid cynnwys gwaharddiadau os oeddent wedi'u diddymu gan y pennaeth, neu os oedd y disgybl wedi'i dderbyn yn ôl gan y pwyllgor disgyblu neu gan banel apêl annibynnol.

Ar gyfer pob gwaharddiad parhaol neu am dymor penodol, dyma'r wybodaeth y mae'n rhaid ei darparu am y disgybl:

| | |
|---|---|
| **UPN** | Disgwylir i hwn gael ei gynnwys ac iddo fod yn UPN dilys ag 13 nod. Fodd bynnag os nad oedd y disgybl |

wedi cael UPN cyn iddo gael ei wahardd, *ni* ddylid rhoi UPN yn awr at ddibenion y datganiad hwn yn unig. Bydd diffyg UPN yn arwain at ymholiad dilysrwydd, ond os bydd yn adlewyrchu'n gywir y sefyllfa ar adeg y gwaharddiad, dylid anwybyddu'r ymholiad.

**ULN**

Rhaid iddo fod yn rhif dilys gyda 10 nod. Ni chaniateir sero fel y nod cyntaf. Dim ond drwy Gofrestr Dysgwyr y Gwasanaeth Cofnodion Dysgu y gellir cael ULN. Cewch fwy o wybodaeth am ULN chanllawiau yn https://llyw.cymru/casglu-data-a-rheoli-gwybodaeth-i-ysgolion.

Am ddisgyblion oed 14 neu'n hŷn.

**Cyfenw**

Cyfenw llawn, yn ôl yr hyn a dybia'r awdurdod lleol.

**Enw blaen**

Yn llawn, heb ei dalfyrru a heb nodi ffurfiau eraill ar yr enw.

**Enw(au) canol**

Yn llawn, heb eu talfyrru a heb nodi ffurfiau eraill ar yr enw(au). Os nad oes gan y disgybl enw(au) canol, dylid gadael y maes hwn yn wag.

**Dyddiad geni**

Yn y fformat **CCBB-MM-DD**.

**Rhyw**

**M** (gwrywaidd) neu **F** (benywaidd).

Yn ogystal, dylai'r wybodaeth ganlynol am waharddiadau gael ei nodi.

**Rheswm am y gwaharddiad**

Codau dilys am waharddiadau yn AHYYY 2024 yw:

**PP** Ymosodiad corfforol ar ddisgybl
**PA** Ymosodiad corfforol ar oedolyn
**VP** Cam-drin geiriol/ymddygiad bygythiol yn erbyn disgybl
**VA** Cam-drin geiriol/ymddygiad bygythiol yn erbyn oedolyn
**BU** Bwlio
**RA** Cam-drin hiliol
**SM** Camymddygiad rhywiol
**DA** Cyffuriau ac alcohol
**DM** Difrod
**TH** Dwyn
**DB** Ymddygiad aflonyddgar parhaus
**OT** Arall

**Categori y gwaharddiad**

Am waharddiadau parhaol, yr unig gategori yw:

**PERM** **Parhaol**

| | |
|---|---|
| | Am waharddiadau am gyfnod penodol, yr unig gategori yw:<br><br>**FIXD** **Cyfnod penodol** |
| **Dyddiad dechrau'r gwaharddiad** | Yn y fformat **CCBB-MM-DD**. |
| **Rhif LEA** | Yr awdurdod lleol y cafodd y plentyn ei wahardd ohono. Rhaid i hyn gyfateb i rif yr awdurdod lleol sy'n anfon y ffurflen AHYYY a chaiff hyn ei ddilysu. |
| **Rhif sefydliad** | Y sefydliad y cafodd y plentyn ei wahardd ohono. |

Am waharddiadau cyfnod penodol YN UNIG, mae'r canlynol yn orfodol:

| | |
|---|---|
| **Nifer o sesiynau a gollwyd** | Cofnodwch y nifer o sesiynau (hanner diwrnod) gollwyd o ganlyniad i'r gwaharddiad. |

## 9. Cofnodi data a gwirio data

Mae’n bosib y bydd eich meddalwedd yn cynnwys cyfres o archwiliadau data a fydd yn eich helpu i adnabod a chywiro gwallau ac anghysonderau yn eich data cyn i chi gynhyrchu eich datganiad AHYYY. Ewch drwy’r broses hon yn ofalus oherwydd y bydd yn lleihau’n sylweddol nifer y gwallau dilysu yn eich datganiad a’r gwaith dilynol y gallai fod angen i chi ei wneud i ddatrys y rhain.

Fodd bynnag, ni all yr archwiliadau data hyn, na’r rheolau dilysu a ddefnyddia’r feddalwedd gyda’r datganiad data AHYYY yn dilyn hynny, sefydlu p’un a ydych chi wedi cofnodi’r holl ddata disgyblion y dylech fod wedi’i gofnodi. Er enghraifft, a yw pob un o’r disgyblion sy’n gymwys i gael prydau bwyd am ddim wedi’u cofnodi felly yn eich system. Bydd y broses ddilysu yn gwneud ymholiad os nad oes yr un o’r disgyblion yn y datganiad yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Os dangosir bod rhai ohonynt yn gymwys, ni fydd ymholiad ond mae’n bosibl y bydd rhagor o ddisgyblion yn gymwys, ond nad ydynt wedi’u cofnodi yn eich system chi.

Felly, er bod yr archwiliadau data yn hynod bwysig, ni allwch dybio bod cwblhau’r archwiliadau’n llwyddiannus yn sicrhau bod yr holl ddata angenrheidiol wedi’i gynnwys, ac y bydd eich datganiad AHYYY yn gywir. Nid yw diffyg gwallau dilysu neu ymholiadau yn sicrhau hynny chwaith. **Rhaid i chi sicrhau felly eich bod wedi cofnodi’n llawn yn eich system yr holl ddata sydd yn y fanyleb cofnodi data.**

## 10. Dilysu a chywiro gwallau

Bydd eich meddalwedd yn rhoi adroddiad manwl ar y gwallau dilysu a’r ymholiadau yn eich datganiad. Mae **gwall** yn golygu bod nod neu werth anghyfreithlon mewn eitem o ddata, neu fod anghysondeb rhesymegol rhwng eitemau o ddata neu rhwng gwahanol agweddau ar y datganiad. Mae gwall bob amser yn dangos bod diffyg cywirdeb yn y datganiad neu fod rhywbeth wedi’i hepgor ohono.

Mae dau fath o **ymholiad**:

- gallant fod yn gysylltiedig â nodwedd anghyffredin yn y data (er enghraifft nad oes unrhyw ddisgybl wedi’i nodi’n un ag anghenion arbennig) sy’n awgrymu, ond nid yn profi, bod diffyg cywirdeb neu fod rhywbeth wedi’i hepgor;
- gallant gael eu defnyddio fel ysgogiad mewn meysydd lle tybir bod risg sylweddol i wybodaeth gael ei hepgor – yr hawl i gael prydau ysgol am ddim er enghraifft. Efallai na fydd gan rai awdurdodau lleol ddisgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ond eithriadau yw’r rheini a bydd y feddalwedd yn gwneud ymholiad mewn achosion o’r fath.

Mae angen ymchwilio i’r ddau fath o ymholiad i weld a oes diffyg cywirdeb neu rywbeth wedi’i hepgor, er y gellir dod i’r casgliad bod y data, mewn gwirionedd, yn gywir.

Mae’n hanfodol eich bod yn datrys cynifer o wallau ag y bo modd **cyn cyflwyno eich datganiad** i Lywodraeth Cymru ac, yn ddelfrydol, eich bod yn datrys pob un ohonynt. Mae’n hanfodol hefyd eich bod yn archwilio pob ymholiad ac yn diwygio data lle gwelir ei fod yn anghywir.

**Efallai y bydd datganiadau a fydd yn cynnwys gwallau pan gyrhaeddant Lywodraeth Cymru yn cael eu gwrthod ac y bydd yn rhaid eu hailgyflwyno. Nid yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu defnyddio’r un trothwy ar gyfer pob ysgol ond, yn hytrach, yn gwerthuso pob datganiad ar sail ei deilyngdod ei hun.**

## 11. Y crynodeb

Caiff y crynodeb ei greu'n awtomatig gan y feddalwedd. Ei ddiben yw galluogi'r rheini sy'n paratoi'r datganiad, a'r sawl sy'n ei awdurdodi, i asesu pa mor gywir a chyflawn ydyw o ystyried bod ffeil y datganiad ei hunan yn rhy fawr i allu ei gweld yn rhwydd yn ei chyfanrwydd. Mae'r crynodeb yn cyflwyno'r data mewn fformat tebyg iawn i grynodeb CYBLD yr ysgol a dylai fod yn syml i'w defnyddio felly fel rhan o'r broses ddilysu.

Dylid archwilio'r crynodeb yn ofalus, gan roi sylw arbennig i'r rhannau hynny allaiddatgelu tystiolaeth nad oedd rhywfaint o'r data am ddisgyblion unigol wedi'i gynnwys yn eich system cyn creu'r datganiad, sef:

- nifer y disgyblion yn ôl rhyw, oedran, categori'r ddarpariaeth;
- nifer y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim;
- nifer y disgyblion a chanddynt ddatganiad AAA;
- nifer y disgyblion ag anghenion arbennig ond heb ddatganiad;
- nifer y disgyblion a chyfanswm oriau'r ddarpariaeth drwy gyfeirio at y Cyfnod Allweddol; a
- nifer y disgyblion a oedd dan waharddiad parhaol neu dros dro yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol.

Bydd y crynodeb hefyd yn cynnwys adroddiad ar nifer y disgyblion a addysgir gartref yn ôl oedran lle mae'r rhieni wedi dewis addysgu'r disgybl eu hunain.

## 12. Anfon y datganiad I Lywodraeth Cymru

Dylai’r datganiad gael ei awdurdodi gan rywun yn yr awdurdod lleol ar wahân i’r sawl sy’n gyfrifol am gynhyrchu’r datganiad. Dylent ei awdurdodi ar ôl bodloni eu hunain bod y data a osodir allan yn y crynodeb yn gywir a bod y gwallau wedi’u datrys. Unwaith y bydd y datganiad wedi’i awdurdodi gan y person perthnasol dylid ei anfon drwy DEWi, y system trosglwyddo data diogel ar-lein, i Lywodraeth Cymru.

Y dyddiad olaf y dylai datganiadau gyrraedd Llywodraeth Cymru:

**Dydd Gwener 7 Mawrth 2025**

Mae Llywodraeth Cymru yn anelu i gynnal cyfnod gwirio ym mis Mai lle bydd awdurdodau lleol yn cael ei anfon darnau o'u data a fydd yn mynd i mewn i'r datganiad cyntaf ystadegol i estyn iddynt gyfle olaf i wirio cywirdeb y data y maent wedi cyflwyno.

## 13. Rhagor o wybodaeth

Os oes angen rhagor o gyngor arnoch ynghylch llenwi unrhyw ran o'ch datganiad AHYYY ar gyfer y cyfrifiad e-bostiwch school.stats@llyw.cymru gyda **AHYYY** yn y blwch pwnc.

# 14. Crynodeb o'r meysydd data

## 14.1 Data ar lefel awdurdod lleol

### Dynodyddion ysgol

| Enw'r Maes | Hyd y Maes | Math o Faes | Sampl o Ddata |
|---|---|---|---|
| Rhif yr ALl | 3 | Alffaniwmerig | 660 |
| Sefydliad | 4 | Alffaniwmerig | LLLL |

### Manylion yr arolwg

| Enw'r Maes | Hyd y Maes | Math o Faes | Sampl o Ddata |
|---|---|---|---|
| Math o Arolwg/Data | 5 | Alffaniwmerig | EOTAS |
| Amsera Gymerwyd i Gwblhau'r Arolwg | 3 | Alffaniwmerig | 100 |

### Manylion addysg ddewisol yn y cartref

| Enw'r Maes | Hyd y Maes | Math o Faes | Sampl o Ddata |
|---|---|---|---|
| Rhyw | 1 | Alffaniwmerig | M |
| Oedran | 2 | Alffaniwmerig | 12 |
| Cyfrif | 3 | Alffaniwmerig | 123 |

## 14.2 Data ar lefel disgyblion unigol

### Dynodyddion disgyblion

| Enw'r Maes | Hyd y Maes | Math o Faes | Sampl o Ddata |
|---|---|---|---|
| UPN (Rhif Unigryw'r Disgybl) | 13 | Alffaniwmerig | Z1234567890123 |
| Rhif Unigryw'r Dysgwr | 10 | Alffaniwmerig | 8534567891 |
| UPN Blaenorol | 13 | Alffaniwmerig | A1234567890122 |
| Cyfenw | 35 | Alffaniwmerig | Jones |
| Enw Blaen | 35 | Alffaniwmerig | Marc |
| Enw(au) Canol | 35 | Alffaniwmerig | Iwan Owen |
| Dyddiad Geni | 10 | Dyddiad | 2017-03-31 |
| Rhyw | 1 | Alffaniwmerig | M |

### Nodweddion disgyblion

| Enw'r Maes | Hyd y Maes | Math o Faes | Sampl o Ddata |
|---|---|---|---|
| Hunaniaeth Genedlaethol y | 3 | Alffaniwmerig | WAL |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Disgybl | | | |
| Cod Ethnig y Disgybl | 4 | Alffaniwmerig | MWBC |
| Ffynhonnell Cod Ethnig y Disgybl | 1 | Alffaniwmerig | P |
| Cymhwyster y Disgybl i gael Prydau Ysgol am Ddim | 1 | Boolean | 0 |
| Gwarchodaeth trosiannol i gael Prydau Ysgol am Ddim | 1 | Boolean | 1 |

### Statws disgyblion

| Enw’r Maes | Hyd y Maes | Math o Faes | Sampl o Ddata |
|---|---|---|---|
| Grŵp Blwyddyn CC y Disgybl | 2 | Alffaniwmerig | 10 |
| Cod Post y Disgybl | 8 | Alffaniwmerig | CF14 5DZ |

### Anghenion addysgol arbennig

| Enw’r Maes | Hyd y Maes | Math o Faes | Sampl o Ddata |
|---|---|---|---|
| Darpariaeth AAA dan y cod ymarfer | 1 | Alffaniwmerig | S |
| Y math o AAA | 4 | Alffaniwmerig | BESD |

### Gwybodaeth AHYYY

| Enw’r Maes | Hyd y Maes | Math o Faes | Sampl o Ddata |
|---|---|---|---|
| Categori’r ddarpariaeth | 3 | Alffaniwmerig | UCD |
| Oriau’r ddarpariaeth | 4 | Alffaniwmerig | 25.2 |
| ALI | 3 | Alffaniwmerig | 660 |
| Sefydliad | 4 | Alffaniwmerig | 1100 |
| Categori arall | 100 | Alffaniwmerig | Disgrifiad |

### Data gwaharddiadau

| Enw’r Maes | Hyd y Maes | Math o Faes | Sampl o Ddata |
|---|---|---|---|
| Dyddiad dechrau’r gwaharddiad | 10 | Dyddiad | 2023-12-15 |
| Rheswm dros waharddiad | 2 | Alffaniwmerig | BU |
| Categori’r gwaharddiad | 4 | Alffaniwmerig | FIXD |
| Sesiynnau a gollwyd | 3 | Alffaniwmerig | 246 |
| ALI | 3 | Alffaniwmerig | 660 |
| Sefydliad | 4 | Alffaniwmerig | 1100 |